SCHEDULE 2

Article 5

Forms in Welsh

Form 1

(i) “Ai chi yw'r person a gofrestrwyd yn y gofrestr etholwyr seneddol ar gyfer yr etholiad hwn fel hyn (*darllenwch y cofnod llawn yn y gofrestr*)?”

(ii) “A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall, yn yr is-etholiad [etholiad cyffredinol] hwn, heblaw fel dirprwy ar ran rhyw berson arall?”

Form 2

(i) “Ai chi yw'r person y gwelir ei enw fel A.B. yn y rhestr ddirpwyon ar gyfer yr etholiad hwn, fel un sydd â hawl i bleidleisio fel dirprwy ar ran C.D.?”

(ii) “A ydych eisoes wedi pleidleisio yma neu rywle arall yn yr is-etholiad [etholiad cyffredinol] hwn fel dirprwy ar ran C.D.?”

Form 3

“Ai chi yw gŵr [gwraig], rhiant, tadcu [mamgu], brawd [chwaer], plentyn, neu ŵyr [wyres] C.D.?”

“A ydych eisoes wedi pleidleisio yn yr etholiad hwn ac yn yr etholaeth hon ar ran dau berson nad ydych yn ŵr [gwraig], rhiant, tadcu [mamgu], brawd [chwaer], plentyn, neu *wcirc;yr [wyres] iddynt?”

Form 4ETHOL AELODI WASANAETHU YN Y SENEDD DROS

Etholaeth .....

Yr ydym ni, sydd â'n henwau isod, ac sy'n etholwyr yn yr Etholaeth a enwyd, drwy hyn yn enwebu'r person a enwir isod i fod yn ymgeisydd yn yr etholiad a nodwyd.

Cyfenw'r ymgeisydd	Enwau eraill yn llawn	Disgriliad	Cyfeiriad ei gartref yn llawn

Llofnodion	Rhif Etholiadol (gweler nodyn 3)	
	Llythyren wahaniaethol	Rhif
Cynigydd	.....	.....
Eilydd	.....	.....
Yr ydym ni sydd â'n henwau isod, ac sy'n etholwyr yn yr Etholaeth a enwyd, yn cytuno drwy hyn â'r enwebiad hwn.		
1.	.....	.....
2.	.....	.....
3.	.....	.....
4.	.....	.....
5.	.....	.....
6.	.....	.....
7.	.....	.....
8.	.....	.....

NODIADAU

1. Tynnir sylw ymgeiswyr ac etholwyr at y rheolau ynglŷn â llenwi papurau enwebu, ac amodau eraill sy'n ymwneud ag enwebu a gynhwysir yn rheolau etholiadau seneddol yn Atodiad 1, Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

2. Lle'r adnabyddir ymgeisydd yn arferol wrth ryw deitl gellir ei ddisgrifio wrth y teitl hwnnw fel pe bai'n gyfenw iddo.

3. Rhif etholiadol person yw ei rif yn y gofrestr a ddefnyddir yn yr etholiad (yn cynnwys llythyren wahaniaethol y dosbarth pleidleisio seneddol y mae wedi'i gofrestru ynddo) ac eithrio cyn i'r gofrestr gael ei chyhoeddi y gellir defnyddio yn lle hynny ei rif (os oes un) yn y rhestr etholwyr ar gyfer y gofrestr honno.

4. Ni chaiff etholwr roi enw wrth fwy nag un papur enwebu yn yr un etholiad.

5. Ni chaiff person sydd â'i enw ar y gofrestr neu'r rhestri etholwyr roi ei enw wrth bapur enwebu os yw'r cofnod yn rhoi fel dyddiad pryd y daw'n ddigon hen i bleidleisio ddyddiad ar ôl y diwrnod a benodir ar gyfer yr etholiad.

Form 5

CYFARWYDDYD I BLEIDLEISWYR

1. Pan roir i chi bapur pleidleisio gwnewch yn siŵr iddo gael ei stampio â'r marc swyddogol.

2. Ewch i un o'r cabanau pleidleisio. Rhowch groes (X) yn y blwch ar ochr dde'r papur pleidleisio gyferbyn ag enw yr ymgeisydd yr ydych am bleidleisio trosto.

3. Plygwch y papur yn ddau. Dangoswch y marc swyddogol i'r swyddog llywyddu, ond peidiwch â gadael i neb weld eich pleidlais. Rhowch y papur pleidleisio yn y blwch pleidleisiau a mynd allan o'r orsaf bleidleisio.

4. Pleidleisiwch i un ymgeisydd yn unig. Peidiwch â rhoi unrhyw farc arall ar y papur pleidleisio neu fe all na chaiff eich pleidlais ei chyfrif.

5. Os bydd i chi drwy gamgymeriad ddifetha eich papur pleidleisio, ewch a'i ddangos i'r swyddog llywyddu a gofyn am un arall.

Form 6

*Nodwch berthynas y cydymaith a'r pleidleisiwr

Gwnaed cais i mi, A.B. o ..... gynorthwyo C.D. (*yn achos person dall sy'n pleidleisio fel dirprwy ychwaneger* pleidleisio fel dirprwy ar ran M.N.) sef rhif ..... ar y gofrestr i gofnodi ei bleidlais yn yr etholiad a gynhelir yn awr yn yr etholaeth hon yn datgan drwy hyn [bod gennyf hawl i bleidleisio fel etholwr yn yr etholiad a enwyd [fy mod yn* .... i'r pleidleisiwr hwnnw ac wedi cyrraedd fy 18 mlwydd oed], ac na fu i mi o'r blaen gynorthwyo unrhyw bleidleisiwr dall [ac eithrio E.F. o .....] i bleidleisio yn yr etholiad a enwyd.

(Llofnodwyd) A.B.

y ..... dydd o fis ..... 19 .

Yr wyf fi y gwelir fy llofnod isod sef swyddog llywyddu gorsaf bleidleisio ..... ar gyfer Etholaeth yn tystio drwy hyn fod y datganiad uchod wedi ei ddarllen i ddechrau yng nghlyw'r datganwr a enwir uchod, a'i fod ef wedi ei lofnodi wedyn yn fy nghŵydd.

(Llofnodwyd) C.H.

y ..... dydd o fis ..... 19 .
am munud wedi .... [a.m.] [p.m.]

NODYN: Os bydd y person sy'n gwneud y datganiad uchod yn ystyriol ac yn fwriadol yn gwneud datganiad llŵg ynglŷn ag unrhyw fater o bwys, bydd yn euog o drosedd.